Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



# Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Plant Preswyl ar y Gofrestr yng Nghymru 2017

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**


Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Canllaw ac allwedd defnyddwyr

- Canllaw 'clicio a mynd' yw hwn sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am destunau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol

- Mae'r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o'r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati

- Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen gyswllt at y wefan honno. Gallwch glicio ar y botwm ar unrhyw adeg i fynd yn ôl at y dudalen gynnwys



mynd nôl at y dechrau

mynd at y dudalen gynnwys

mynd at y dudalen flaenorol

mynd at y dudalen nesaf

# Cynnwys

1 Cyflwyniad 04

2 Crynodeb 04

3 Pwyntiau allweddol a thueddiadau 05

4 Beth rydym yn ei wneud 06

5 Data a dadansoddi 07

5.1 Nifer y rheolwyr a'r gweithwyr gofal preswyl i blant sydd wedi'u cofrestru 07

**Rheolwyr gofal preswyl i blant** 08

5.2 Gwybodaeth am gyflogaeth rheolwyr 08

5.3 Hyd cyfnod rheolwyr mewn swydd 11

5.4 Trosiant rheolwyr ar y Gofrestr 11

5.5 Cymwysterau rheolwyr 12

5.6 Oedran a rhywedd rheolwyr 15

5.7 Amrywiaeth ethnig, anabledd datganedig a gallu rheolwyr yn y Gymraeg 16

**Gweithwyr gofal preswyl i blant** 17

5.8 Gwybodaeth am gyflogaeth gweithwyr 17

5.9 Hyd cyfnod gweithwyr mewn swydd 19

5.10 Trosiant gweithwyr ar y Gofrestr 20

5.11 Cymwysterau gweithwyr 22

5.12 Oedran a rhywedd gweithwyr 24

5.13 Amrywiaeth ethnig, anabledd datganedig a gallu gweithwyr yn y Gymraeg 26

Manylion cyswllt 28

# 1. Cyflwyniad

Hwn yw nawfed adroddiad rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant sy'n gweithio yng Nghymru. Diben yr adroddiad yw rhoi sylwadau ar a chraffu ar ar grynodeb o'r data, a threfnu ei fod ar gael, fel bod gennym ddealltwriaeth well o'r gweithlu.

Mae'r adroddiad wedi ei rannu'n ddwy adran sy'n edrych ar reolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant. Ceir dadansoddiad manylach o weithwyr gofal preswyl i blant gan fod y niferoedd yn uwch.

Mae cofrestru wedi bod yn orfodol ar gyfer rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant yng Nghymru ers 2007 a 2008. Rhaid i reolwyr gael y cymhwyster gofynnol a bod wedi eu cofrestru gyda ni i ymarfer yng Nghymru. Gall gweithwyr gofal preswyl i blant gofrestru ar sail cwblhau'r fframwaith sefydlu os nad ydynt yn meddu ar y cymhwyster gofynnol eto, a rhaid iddynt gwblhau'r cymhwyster gofynnol cyn diwedd eu cyfnod cofrestru cyntaf o dair blynedd.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y 195 o reolwyr gofal preswyl i blant a 2,482 o weithwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr ar 1 Gorffennaf 2017. Nid yw rheolwyr a gweithwyr sydd wrthi'n gwneud cais i gofrestru wedi eu cynnwys.

# 2. Crynodeb

Y prif bryder a nodwyd yn yr adroddiad hwn yw bod canran y gweithwyr gofal preswyl i blant sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol wedi parhau i ostwng ers 2014, sy'n awgrymu nad yw cofrestru'r grŵp hwn wedi arwain at weithlu mwy cymwys. Y prif reswm am hyn yw'r trosiant uchel o weithwyr gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod nifer yr unigolion sy'n cofrestru ar sail cwblhau'r fframwaith sefydlu yn cynyddu, ond bod llawer ohonynt wedyn yn dod oddi ar y Gofrestr cyn cwblhau'r cymhwyster gofynnol. Mae angen gwneud mwy o waith i ddeall pam mae cynifer o weithwyr yn dewis peidio ag aros yn eu rolau. Wedyn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut gallwn wella cyfleoedd gyrfa i ddenu mwy o weithwyr at y grŵp hwn, a'u cadw.

Mae nifer y rheolwyr a'r gweithwyr ar y Gofrestr ill dau wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf, gan barhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2012. Ar ei ben ei hun, mae hyn yn awgrymu bod y Gofrestr yn sefydlog, fodd bynnag, mae trosiant ar gyfer gweithwyr yn arbennig wedi cynyddu. Mae mwy o weithwyr newydd wedi ymuno â'r Gofrestr eleni (691) na mewn unrhyw flwyddyn flaenorol.

Mae canran y rheolwyr sydd wedi newid swydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn is nag ydoedd dair blynedd yn ôl, ac mae dwywaith yn fwy o reolwyr wedi bod yn eu swydd bresennol ers mwy na 10 mlynedd. Mae hyn yn awgrymu bod y Gofrestr ar gyfer rheolwyr yn sefydlog ar y cyfan.

Mewn cyferbyniad, mae canran y gweithwyr sydd wedi newid swydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi codi o 33.7 y cant yn 2014 i 41.6 y cant eleni. Mae bron i 10 y cant wedi bod yn eu swydd bresennol ers mwy na 10 mlynedd. Roedd bron i chwarter y gweithwyr a adawodd y Gofrestr wedi cofrestru ers llai na blwyddyn, sy'n awgrymu nad yw gweithwyr newydd yn aros yn eu swydd yn hir.

Parhaodd mwyafrif y gweithwyr i gael eu cyflogi gan y sector preifat, a chynyddodd y ganran hon 9.3 y cant o gymharu â thair blynedd yn ôl.

Mae oedran cyfartalog y rheolwyr a'r gweithwyr wedi aros yr un fath ers i'r adroddiadau ddechrau (44 oed ar gyfer rheolwyr a 30 oed ar gyfer gweithwyr), ond mae canran y menywod wedi cynyddu ychydig ar gyfer y naill grŵp a'r llall ers 2015. Mae gallu yn y Gymraeg wedi cynyddu ar gyfer rheolwyr a gweithwyr dros y tair blynedd ddiwethaf.

# 3. Pwyntiau a thueddiadau allweddol

- **Mae 195 o reolwyr a 2,482 o weithwyr ar y Gofrestr.** Mae hyn yn gynnydd o wyth rheolwr a 213 o weithwyr.
- Roedd mwy o reolwyr na gwasanaethau cofrestredig mewn hanner o'r 22 ardal awdurdod unedol a'r un nifer mewn chwech arall.
- **Mae 66.3 y cant o reolwyr a 69.7 y cant o weithwyr yn gweithio yn y sector preifat**, sy'n uwch na'r llynedd.
- **Roedd 41.6 y cant o weithwyr wedi newid swydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf**, o gymharu â 33.7 y cant yn 2014, sy'n awgrymu bod gweithwyr yn symud yn gynyddol rhwng rolau.
- **Hyrwyddwyd 23 o weithwyr ac felly newidiwyd eu cofrestriad i rheolwr yn ystod** y flwyddyn ddiwethaf.
- **Cofrestrodd 47 y cant o weithwyr ar sail cwblhau'r fframwaith sefydlu**, sy'n parhau â'r duedd o gynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- **44 oed yw oedran cyfartalog rheolwyr** a **38 oed yw oedran cyfartalog gweithwyr.**
- **Mae 12 y cant o reolwyr** a **10.9 y cant o weithwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl.**

# 4. Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud

Ers dod yn Gofal Cymdeithasol Cymru, mae ein cylch gwaith wedi tyfu. Erbyn hyn, rydym yn cydlynu ymchwil a gwella gwasanaethau gan roi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.

Y llynedd, fe wnaethom helpu i greu cynllun gweithredu ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant, a oedd yn canolbwyntio ar wella sefydlu, cymwysterau, recriwtio a chadw.

Eleni, rydym wedi:

- adolygu cymwysterau craidd, gyda Cymwysterau Cymru a chydweithwyr eraill, i gryfhau'r llwybr plant a phobl ifanc yn nyfarniadau Lefel 3. Bydd gan y cymwysterau hyn lwybr dilyniant i Lefel 4 ar gyfer ymarfer a rheoli, a byddant ar gael i'w haddysgu ym mis Medi 2019. Tan hynny, rydym yn cefnogi dyfarniad Camu Ymlaen i Reoli ac yn ariannu lleoedd ar gyfer mis Ionawr 2018
- diweddaru'r fframwaith sefydlu ar sail adborth. Bydd hwn yn cael ei lansio ar ddiwedd 2017, a'i roi ar waith o fis Ebrill 2018
- dechrau gwaith ar fframwaith newydd ar gyfer gyrfaoedd, recriwtio a chadw, ar sail adborth o weithdai a gynhaliwyd ledled Cymru
- darparu cyllid uniongyrchol ar gyfer dysgu a datblygu trwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (RhDGGC).

Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i strategaeth gweithlu tymor hir ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i wella gwasanaethau, ac yn 2017 i 2018, rydym yn dal i gyflwyno rhaglen i weithwyr cymdeithasol, darparwyr gwasanaeth a chomisiynwyr, i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Rydym yn datblygu tri maes ymchwil, sy'n edrych ar y canlynol:

- plant a phobl ifanc sydd angen lleoliadau llety diogel a'r canlyniadau ar gyfer y plant hyn
- adolygiad o ymyriadau y profwyd eu bod yn effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- gweithgareddau a mentrau ar draws y sector i wella gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

# 5. Data a dadansoddi

## 5.1 Nifer y rheolwyr a'r gweithwyr gofal preswyl i blant

Tabl 1: Nifer ar y Gofrestr a nifer y gwasanaethau gofal preswyl i blant sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

| Rôl gofrestredig | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | Newid net 2016 i 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr gofal preswyl i blant | 171 | 179 | 179 | 187 | 195 | +8 |
| Gweithwyr gofal preswyl i blant | 2,153 | 2,167 | 2,176 | 2,269 | 2,482 | +213 |
| Gwasanaethau gofal preswyl i blant | 124 | 130 | 134 | 144 | 150 | +6 |

- Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y rheolwyr ar y Gofrestr wedi cynyddu 4.3 y cant (i 195), sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau (4.2 y cant). Mae nifer y gweithwyr wedi cynyddu 9.4 y cant (i 2,482).

- Ceir dau wasanaeth yn unig ble roedd swydd y rheolwr yn wag ac nid oedd unrhyw reolwr wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru na gydag AGGCC.

# Rheolwyr gofal preswyl i blant

## 5.2 Gwybodaeth am gyflogaeth rheolwyr

Tabl 2: Cyflogaeth rheolwyr yn ôl sector (o gymharu â thair blynedd yn ôl)

| | Canran a nifer y rheolwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| Math o wasanaeth | 2014 | | 2017 | |
| Gwasanaeth preifat wedi'i gofrestru yng Nghymru | 66.9% | 113 | 66.3% | 120 |
| Gwasanaeth awdurdod lleol wedi'i gofrestru yng Nghymru | 15.4% | 26 | 17.7% | 32 |
| Gwasanaeth trydydd sector wedi'i gofrestru yng Nghymru | 7.1% | 12 | 5.5% | 10 |
| Gweithio preifat ar draws ffiniau | 7.1% | 12 | 6.1% | 11 |
| Gwasanaeth preifat wedi'i leoli mewn swyddfa darparwr gwasanaeth | 1.8% | 3 | 2.2% | 4 |
| Ysgol awdurdod lleol | 1.8% | 3 | 0.6% | 1 |
| Ysgol breifat | 0.0% | 0 | 1.7% | 3 |
| Ysgol trydydd sector | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 |
| Cyfanswm | 100% | 169 | 100% | 181 |

- Mae 181 o'r 195 o reolwyr ar y Gofrestr mewn swydd.
- Mae'r sector preifat yn parhau i gyflogi mwyafrif y rheolwyr (66.3 y cant). Mae'r nifer a gyflogir mewn gwasanaethau awdurdodau lleol wedi'u cofrestru yng Nghymru wedi cynyddu ychydig yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae cynnydd bach wedi bod yn y ganran a gyflogir gan awdurdodau lleol.

Tabl 3: Nifer y rheolwyr a'r gweithwyr ar y Gofrestr a gyflogir ym mhob ardal awdurdod unedol yng Nghymru

| Awdurdod unedol | Nifer y gwasanaethau | Nifer y rheolwyr | Nifer y gweithwyr |
|---|---:|---:|---:|
| Wrecsam | 22 | 28 | 202 |
| Rhondda Cynon Taf | 13 | 16 | 141 |
| Powys | 14 | 13 | 211 |
| Sir Benfro | 10 | 11 | 112 |
| Abertawe | 9 | 11 | 141 |
| Caerdydd | 5 | 10 | 206 |
| Sir Gaerfyrddin | 10 | 10 | 95 |
| Sir y Fflint | 6 | 8 | 134 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 8 | 138 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 7 | 81 |
| Sir Ddinbych | 7 | 7 | 121 |
| Gwynedd | 6 | 7 | 165 |
| Casnewydd | 7 | 7 | 93 |
| Bro Morgannwg | 7 | 6 | 78 |
| Ynys Môn | 1 | 5 | 35 |
| Sir Fynwy | 9 | 5 | 74 |
| Conwy | 3 | 3 | 53 |
| Caerffili | 4 | 2 | 27 |
| Ceredigion | 1 | 2 | 9 |
| Blaenau Gwent | 2 | 1 | 22 |
| Merthyr Tudful | 1 | 1 | 9 |
| Torfaen | 0 | 1 | 0 |
| Y tu allan i Gymru | n/a | 12 | 223 |
| Cyfanswm | 150 | 181 | 2,370 |

- Roedd mwy o reolwyr na gwasanaethau cofrestredig mewn hanner o'r ardaloedd awdurdodau unedol a'r un nifer mewn chwe awdurdod arall. Wrecsam sydd â'r nifer uchaf o wasanaethau a rheolwyr.

Tabl 4: Rolau rheolwyr (o gymharu â thair blynedd yn ôl)

| | Canran a nifer y rheolwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rôl | 2014 | | 2017 | |
| Rheolwr mewn gwasanaeth gofal preswyl cofrestredig i blant | 72.1% | 129 | 69.7% | 136 |
| Rheolwr cynorthwyol/dirprwy reolwr | 11.2% | 20 | 11.8% | 23 |
| Rôl arall mewn gofal preswyl i blant | 6.1% | 11 | 9.2% | 18 |
| Dim swydd bresennol mewn gofal preswyl i blant, neu anhysbys | 5.6% | 10 | 7.2% | 14 |
| Rheolwr ysgol | 1.7% | 3 | 1.5% | 3 |
| Rheolwr dros dro | 2.8% | 5 | 0.5% | 1 |
| Rheolwr cynorthwyol/dirprwy reolwr ysgol | 0.6% | 1 | 0.0% | 0 |
| Cyfanswm | 100.0% | 179 | 100.0% | 195 |

- Bu cynnydd o saith yn nifer y rheolwyr a oedd yn rheoli gwasanaeth gofal preswyl i blant yn y tair blynedd ddiwethaf, ond o edrych arnynt fel canran y rheolwyr ar y Gofrestr, roedd hyn yn ostyngiad o 2.4 y cant.

- Roedd nifer y rheolwyr mewn rolau eraill – nad ydynt yn rheolwr neu'n ddirprwy sy'n rheoli gwasanaeth preswyl – wedi cynyddu 6 y cant yn y tair blynedd ddiwethaf.

- Gall unigolion nad ydynt mewn rôl reoli ar hyn o bryd gofrestru o hyd gan eu bod yn meddu ar y cymhwyster angenrheidiol at ddibenion cofrestru a bydd ganddynt rôl reoli, neu wedi ymgymryd â rôl reoli, naill ai'n barhaol neu'n dirprwyo ar ran rheolwr.

## 5.3 Hyd cyfnod rheolwyr mewn swydd

Tabl 5: Symud rheolwyr rhwng swyddi (o gymharu â thair blynedd yn ôl)

| | Canran a nifer y rheolwyr mewn cyflogaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| Symud rhwng swydd neu wasanaeth | 2014 | | 2017 | |
| Newidiodd i swydd arall o fewn y flwyddyn flaenorol | 30.2% | 51 | 16.0% | 29 |
| Newidiodd i swydd arall o fewn y ddwy flynedd flaenorol | 46.2% | 78 | 34.8% | 63 |
| Yn y swydd bresennol am bum mlynedd neu fwy | 25.4% | 43 | 32.6% | 59 |
| Yn y swydd bresennol am 10 mlynedd neu fwy | 5.3% | 9 | 11.0% | 20 |

- Roedd mwy na thraean o reolwyr (34.8 y cant) wedi newid swydd neu wasanaeth o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, fodd bynnag, mae hyn gryn dipyn yn is nag ydoedd dair blynedd yn ôl pan oedd 46.2 y cant wedi gwneud hynny.

- Roedd 11 y cant o reolwyr wedi bod yn eu swydd bresennol am 10 mlynedd neu fwy, sydd ddwywaith yn fwy o gymharu â thair blynedd yn ôl (5.3 y cant yn 2014).

## 5.4 Trosiant rheolwyr ar y Gofrestr

Tabl 6: Trosiant rheolwyr ar y Gofrestr

| Trosiant rheolwyr | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y rheolwyr yn yr adroddiad hwn | 171 | 179 | 179 | 187 | 195 |
| Nifer a adawodd ers yr adroddiad diwethaf | 19 | 27 | 22 | 17 | 24 |
| Nifer a ymunodd ers yr adroddiad diwethaf | 36 | 35 | 22 | 25 | 32 |
| Gwahaniaeth net | 17 | 8 | 0 | 8 | 8 |
| Trosiant blynyddol fel canran | 12.3% | 15.8% | 12.3% | 9.5% | 12.8% |

- Trosiant blynyddol y rheolwyr eleni oedd 12.8 y cant, yn unol â'r trosiant cyfartalog dros y pum mlynedd ddiwethaf (12.5 y cant).

- O'r rheolwyr newydd, roedd 23 rheolwr wedi cael eu cofrestru o'r blaen fel gweithwyr gofal preswyl i blant ac wedi cymhwyso fel rheolwr.

**Tabl 7: Rhesymau y gadawodd rheolwyr y Gofrestr**

| Rheswm dros adael | Nifer y rheolwyr |
|---|---|
| Cofrestriad wedi dod i ben | 14 |
| Arall | 4 |
| Nid yw cofrestru'n ofyniad ar gyfer swydd bresennol | 2 |
| Nid yw'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach | 1 |
| Wedi ymddeol | 1 |
| Newidiodd rôl gofrestru i weithiwr cymdeithasol, rheolwr cartref gofal i oedolion, rheolwr gofal cartref | 1 |
| Wedi'i wahardd | 1 |
| Cyfanswm | 24 |

- Nid oedd y rheolwyr a adawodd y Gofrestr yn gweithio yn y sector yng Nghymru mwyach, gan na all y rheiny nad ydynt wedi cofrestru ymarfer. Y rheswm mwyaf cyffredin dros adael y Gofrestr oedd bod cofrestriad wedi dod i ben, sy'n cynnwys unigolion a dynnwyd oddi ar y Gofrestr am fethu talu eu ffi flynyddol neu adnewyddu eu cofrestriad.

## 5.5 Cymwysterau rheolwyr

Mae gan bob rheolwr gymhwyster perthnasol. Ym mis Ionawr 2011, cyflwynwyd Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (LHSCS): Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru) fel y cymhwyster cyfredol mae rheolwyr angen i gofrestru.


**Tabl 8: Canran y rheolwyr sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol presennol**

| Cymhwyster | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Diploma LHSCS Lefel 5 Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru) | 9% | 17% | 25% | 33% | 42% |
| Cymwysterau cymeradwy eraill fel y'u rhestrir | 91% | 83% | 75% | 67% | 58% |

- Mae'r ganran sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol presennol, Diploma Lefel 5 mewn LHSCS: Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru), wedi cynyddu i 42 y cant. Bob blwyddyn, mae cyfran uwch o reolwyr yn meddu ar y cymhwyster gofynnol presennol cyn cofrestru.

- Mae'r holl reolwyr gofal preswyl eraill i blant yn meddu ar gymhwyster gofynnol rhagflaenol.

Ffigur 1: Cymwysterau rheolwyr




- Diploma LHSCS Lefel 5 Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru)
- NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Gofalu am Blant a Phobl Ifanc/Cymhwyster gofal a rheoli
- NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal gydag unedau B6 a B7 neu gyfwerth
- NVQ 4 Rheolwyr mewn Gofal Preswyl i Blant
- Cymhwyster gwaith cymdeithasol yn ogystal â chymhwyster rheoli cymeradwy
- Cyfwerth â'r cymhwyster gofynnol

Tabl 9: Cymhwyster rheolwyr i ymarfer (o gymharu â thair blynedd yn ôl)

| | Nifer y rheolwyr | |
|---|---|---|
| Cymhwyster | 2014 | 2017 |
| Diploma LHSCS Lefel 5 Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru) | 30 | 81 |
| NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol /Gofalu am Blant a Phobl Ifanc/ Cymhwyster gofal a rheoli | 82 | 74 |
| NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal gydag unedau B6 a B7 neu gyfwerth | 37 | 18 |
| NVQ 4 Rheolwyr mewn Gofal Preswyl i Blant | 23 | 14 |
| Cymhwyster gwaith cymdeithasol yn ogystal â chymhwyster rheoli cymeradwy | 6 | 6 |
| Cyfwerth â'r cymhwyster gofynnol | 0 | 2 |
| Tystysgrif mewn Gofal Preswyl i Blant a Phobl Ifanc | 1 | 0 |
| Cyfanswm | 179 | 195 |

- Am y tro cyntaf ers ei gyflwyno yn 2011, roedd gan fwy o reolwyr y cymhwyster gofynnol, sef Diploma LHSCS Lefel 5 Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru), nag unrhyw gymhwyster arall.

- O gymharu â thair blynedd yn ôl, gostyngodd y niferoedd sy'n meddu ar yr holl gymwysterau rhagflaenol eraill, arhosodd y nifer sy'n meddu ar gymhwyster gwaith cymdeithasol a chymhwyster rheoli'r un fath, ac mae gan ddau reolwr gymhwyster cyfwerth a enillwyd yn Lloegr am reoli ym maes gofal preswyl i blant.

## 5.6 Oedran a rhywedd rheolwyr

Tabl 10: Oedran a rhywedd rheolwyr ar y Gofrestr

| Grŵp oedran | Menywod | Dynion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| O dan 25 | 0 | 0 | 0 |
| 25-30 | 6 | 4 | 10 |
| 31-35 | 15 | 13 | 28 |
| 36-40 | 17 | 15 | 32 |
| 41-45 | 21 | 15 | 36 |
| 46-50 | 32 | 15 | 47 |
| 51-55 | 16 | 8 | 24 |
| 56-60 | 11 | 1 | 12 |
| 61-65 | 4 | 1 | 5 |
| Dros 65 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 122 | 73 | 195 |

- Arhosodd oedran cyfartalog rheolwyr yn 44 oed, yr un fath ag ydoedd mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf.
- Oedran cyfartalog rheolwyr yn ymuno â'r Gofrestr oedd 38 oed, ac oedran cyfartalog y rheiny a oedd yn gadael oedd 48 oed.
- Roedd 62.6 y cant o reolwyr yn fenywod, a 37.4 y cant yn ddynion. Ychydig iawn y mae'r rhaniad rhwng menywod a dynion wedi newid yn y pum mlynedd ddiwethaf.

## 5.7 Amrywiaeth ethnig, anabledd datganedig a gallu rheolwyr yn y Gymraeg

- Cesglir data ar gyfle cyfartal o ran y Gymraeg yn wirfoddol fel rhan o'r broses ymgeisio i fonitro bod y broses gofrestru yn deg.

- Darparodd 78.5 y cant o reolwyr wybodaeth ynghylch p'un a oedd ganddynt anabledd, ac fe wnaeth mwy na 99 y cant o'r rheiny a ymatebodd ddatgan nad oes ganddynt unrhyw anabledd.

**Tabl 11: Amrywiaeth ethnig rheolwyr ar y Gofrestr**

| Ethnigrwydd | Canran |
|---|---:|
| Gwyn, Gwyn Prydeinig, Gwyn Cymreig, Gwyn Gwyddelig | 94.8% |
| Du neu Ddu Prydeinig Caribïaidd | 1.3% |
| Unrhyw ethnigrwydd arall | 0.6% |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 0.6% |
| Du Affricanaidd | 0.6% |
| Du neu Ddu Prydeinig Affricanaidd | 0.6% |
| Gwyn ac Asiaidd Cymysg | 0.6% |
| Gwyn a Du Affricanaidd Cymysg | 0.6% |
| Cyfanswm | 100% |

- O'r 79 y cant o reolwyr a ddarparodd wybodaeth am eu hethnigrwydd, fe wnaeth 95.4 y cant ddatgan eu bod yn wyn. Mae hyn yn ostyngiad bach yn y tair blynedd ddiwethaf.

- Disgrifiodd 95.6 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru eu hunain fel gwyn[1].

*1. Ffynhonnell: "Arolwg y Llafurlu Lleol/Arolwg Poblogaeth Flynyddol 2016: Ethnigrwydd yn ôl awdurdod lleol Cymru" statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup*

Tabl 12: Gallu datganedig rheolwyr yn y Gymraeg (o gymharu â thair blynedd yn ôl)

| | Canran y rheolwyr gofal preswyl i blant | |
|---|---|---|
| Iaith Gymraeg | 2014 | 2017 |
| Rhugl | 10% | 12% |
| Ychydig o Gymraeg | 17% | 21% |
| Dim Cymraeg | 73% | 67% |

- O'r 79 y cant o reolwyr a ddarparodd wybodaeth am eu gallu yn y Gymraeg, mae 12 y cant yn rhugl yn y Gymraeg, o gymharu â 10 y cant yn 2014. Cynyddodd y nifer a ddywedodd eu bod yn medru ychydig o Gymraeg hefyd, a bu gostyngiad yn y rheiny nad oeddent yn siarad unrhyw Gymraeg, sy'n dangos cynnydd graddol yn y defnydd o'r Gymraeg.
- Yng nghyfrifiad 2011, dywedodd 19 y cant o boblogaeth Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg[2].

# Gweithwyr gofal preswyl i blant

## 5.8 Gwybodaeth am gyflogaeth gweithwyr

Tabl 13: Statws cyflogaeth gweithwyr

| | Canran a nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant | | | |
|---|---|---|---|---|
| Statws cyflogaeth | 2014 | | 2017 | |
| Cyflogir ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru | 87.8% | 1,903 | 87.0% | 2,159 |
| Yn gweithio i ddarparwr yn Lloegr ac yn gweithio ychydig o'r amser yn eu gwasanaethau yng Nghymru | 6.5% | 141 | 8.5% | 211 |
| Cyfanswm ble mae cyflogaeth yn hysbys | 94.3% | 2,044 | 95.5% | 2,370 |
| Dim cyflogaeth bresennol neu gyflogaeth yn anhysbys | 5.7% | 123 | 4.5% | 112 |
| Cyfanswm | 100% | 2,167 | 100% | 2,482 |

- Mae canran y gweithwyr mewn cyflogaeth wedi aros yn sefydlog iawn. At ei gilydd, mae'r ganran mewn cyflogaeth wedi cynyddu ychydig o gymharu â thair blynedd yn ôl, ond mae'r cynnydd bach hwn mewn rheolwyr sy'n gweithio i ddarparwr yn Lloegr ac yn gweithio rhywfaint o'u hamser yn eu gwasanaethau yng Nghymru.

*2. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd "A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?". Ni chasglodd y cyfrifiad wybodaeth am lefelau rhuglder nac am amlder y defnydd.*

Tabl 14: Cyflogaeth gweithwyr yn ôl sector

| | Nifer a chanran y gweithwyr gofal preswyl i blant | | | |
|---|---|---|---|---|
| Math o wasanaeth | 2014 | | 2017 | |
| Gwasanaeth preifat wedi'i gofrestru yng Nghymru | 1,073 | 60.4% | 1,397 | 69.7% |
| Gweithio ar draws ffiniau ar gyfer darparwr preifat | 141 | | 211 | |
| Ysgol breifat yng Nghymru | 21 | | 43 | |
| Gwasanaeth cofrestredig awdurdod lleol | 461 | 25.0% | 492 | 22.1% |
| Ysgol awdurdod lleol | 51 | | 31 | |
| Staff achlysurol awdurdod lleol | 0 | | 0 | |
| Gwasanaethau trydydd sector wedi'u cofrestru yng Nghymru | 231 | 11.3% | 156 | 6.6% |
| Cyflogeion asiantaeth | 55 | 2.7% | 26 | 1.1% |
| Rolau eraill yng Nghymru/Nid mewn gwasanaeth preswyl | 11 | 0.5% | 14 | 0.6% |
| Cyfanswm | 2,044 | | 2,370 | |

- Parhaodd mwyafrif y gweithwyr i gael eu cyflogi gan y sector preifat.
- Mae'r ganran sy'n gweithio yn y trydydd sector yn is nag ydoedd yn 2014, yn rhannol o ganlyniad i gau gwasanaeth a oedd wedi cyflogi 58 o weithwyr yn 2014.

## 5.9 Hyd cyfnod gweithwyr mewn swydd

Tabl 15: Nifer y blynyddoedd yr oedd gweithwyr wedi bod yn eu swydd bresennol

| Blynyddoedd yn eu swydd bresennol | Nifer y gweithwyr |
|---|---:|
| Mwy na 10 mlynedd | 227 |
| 9-10 mlynedd | 33 |
| 8-9 mlynedd | 48 |
| 7-8 mlynedd | 75 |
| 6-7 mlynedd | 87 |
| 5-6 mlynedd | 139 |
| 4-5 mlynedd | 182 |
| 3-4 blynedd | 213 |
| 2-3 blynedd | 381 |
| 1-2 flynedd | 553 |
| 0-1 blwyddyn | 432 |
| Cyfanswm | 2,370 |

Tabl 16: Symudiad gweithwyr rhwng swyddi

| | Canran y gweithwyr gofal preswyl i blant ar 1 Gorffennaf | |
|---|---:|---:|
| Cyfnod yn eu swydd bresennol | 2014 | 2017 |
| Newid i swydd arall yn y flwyddyn flaenorol | 12.8% | 18.2% |
| Newid i swydd arall o fewn y dwy flynedd flaenorol | 33.7% | 41.6% |
| Yn eu swydd bresennol am bum mlynedd neu fwy | 25.1% | 25.7% |
| Yn eu swydd bresennol am 10 mlynedd neu fwy | 8.9% | 9.6% |

- Yn wahanol i reolwyr, roedd gweithwyr yn symud yn gynyddol o fewn y sector o gymharu â thair blynedd yn ôl. Roedd canran y gweithwyr a oedd wedi newid swydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf 7.9 y cant yn uwch o gymharu â 2014, er bod y canrannau sydd wedi bod yn eu swydd am bum mlynedd neu fwy wedi aros yn gyson.

## 5.10 Trosiant y gweithwyr

Tabl 17: Trosiant y gweithwyr

| | Nifer y gweithwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosiant y gweithwyr | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Cyfanswm ar y Gofrestr ar 1 Gorffennaf | 2,153 | 2,167 | 2,176 | 2,269 | 2,482 |
| Gadawodd y Gofrestr fel gweithiwr gofal preswyl i blant yn y 12 mis blaenorol | 308 | 430 | 510 | 439 | 478 |
| Ymunodd â'r Gofrestr fel gweithiwr gofal preswyl i blant yn y 12 mis blaenorol | 453 | 444 | 519 | 532 | 691 |
| Newid net ers yr adroddiad blaenorol | +145 | +14 | +9 | +93 | +213 |
| Trosiant blynyddol fel canran | 15.3% | 20.0% | 23.5% | 20.2% | 21.1% |

- Mae trosiant y gweithwyr ar y Gofrestr yn amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn. Eleni, ymunodd y nifer fwyaf o weithwyr newydd â'r Gofrestr, gan arwain at gynnydd net o 213.

Tabl 18: Grwpiau oedran o weithwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr

| Grŵp oedran | Menywod | Dynion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| O dan 25 | 103 | 34 | 137 |
| 25-30 | 137 | 78 | 215 |
| 31-35 | 44 | 42 | 86 |
| 36-40 | 41 | 42 | 83 |
| 41-45 | 25 | 19 | 44 |
| 46-50 | 33 | 23 | 56 |
| 51-55 | 25 | 20 | 45 |
| 56-60 | 9 | 7 | 16 |
| 61-65 | 6 | 1 | 7 |
| Dros 65 | 0 | 2 | 2 |
| Cyfanswm | 423 | 268 | 691 |

- Oedran cyfartalog y 691 o weithwyr newydd sy'n ymuno â'r Gofrestr oedd 34 oed. Roedd mwy na hanner ohonynt (50.9 y cant) yn 30 oed neu'n iau. Mae'r ganran sy'n 30 oed neu'n iau wedi cynyddu 2.1 y cant ers 2013.

- Mae'r tabl nesaf yn dangos y 478 o weithwyr a adawodd a oedd wedi'u cofrestru. Mae'n cynnwys yr holl weithwyr a dynnwyd oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm, gan gynnwys cofrestriad yn dod i ben (unigolion nad ydynt yn talu eu ffi flynyddol neu nid ydynt yn adnewyddu eu cofrestriad), maent wedi tynnu eu henwau oddi ar y gofrestr yn wirfoddol neu tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr oherwydd ymddygiad.

Tabl 19: Gweithwyr a dynnwyd oddi ar y Gofrestr; nifer y blynyddoedd ers iddynt gofrestru i ddechrau

| Blynyddoedd ers iddynt gofrestru | Cyfanswm |
|---|---|
| 8-9 mlynedd | 56 |
| 7-8 mlynedd | 23 |
| 6-7 mlynedd | 10 |
| 5-6 mlynedd | 40 |
| 4-5 mlynedd | 17 |
| 3-4 blynedd | 32 |
| 2-3 blynedd | 91 |
| 1-2 flynedd | 94 |
| 0-1 blwyddyn | 115 |
| Cyfanswm | 478 |


- Roedd bron i chwarter (24 y cant) a adawodd y Gofrestr wedi cofrestru am lai na blwyddyn. Roedd 62.8 y cant wedi cofrestru am lai na thair blynedd, sy'n awgrymu nad yw gweithwyr newydd yn aros yn eu swydd yn hir.

- Gadawodd mwyafrif y rheiny a adawodd y Gofrestr cyn y dyddiad adnewyddu disgwyliedig. Caiff yr unigolion hyn eu categoreiddio fel unigolion y mae eu cofrestriad 'wedi dod i ben' gan na wnaethant dalu eu ffi flynyddol neu ni wnaethant gyflwyno adnewyddiad cyflawn cyn eu dyddiad disgwyliedig. Fodd bynnag, o'r gweithwyr a adawodd y Gofrestr yn 2016, roedd 46.9 y cant yn meddu ar gymhwyster gofynnol cyn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr.

- Newidiodd 23 o weithwyr eu cofrestriad i reolwr. O'r rhain, roedd 14 gweithiwr wedi newid i rôl rheolwr, roedd saith ohonynt yn ddirprwy reolwyr neu'n rheolwyr cynorthwyol, ac roedd dau ohonynt yn gweithio mewn rolau eraill.

## 5.11 Cymwysterau gweithwyr

Ffigur 2 – Cymhwyster gweithwyr




- Cwblhau'r fframwaith sefydlu
- NVQ 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant)
- Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)
- NVQ 3 Gofalu am Blant a Phobl Ifanc
- Diploma Lefel 3 ar gyfer y Gweithlu Plant a Phobl Ifanc: Llwybr Gofal Cymdeithasol
- NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant)
- Cymhwyster gwaith cymdeithasol
- LHSCS Lefel 5 (Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc)
- NBQ 4 Rheolwyr mewn Gofal Preswyl i Blant
- NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaeth Gofal
- NVQ 4 Gofal
- Lefel 5 mewn LHSCS (Arfer Uwch Plant a Phobl Ifanc)

Tabl 20: Nifer y gweithwyr sydd wedi eu cofrestru ar sail sefydlu neu feddu ar gymhwyster gofynnol

| Sail i gofrestru | 2014 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| Cwblhau'r fframwaith sefydlu | 41% | 883 | 47% | 1,167 |
| Cyfanswm sy'n meddu ar gymhwyster gofynnol | 59% | 1,284 | 53% | 1,315 |
| Cyfanswm | 100% | 2,167 | 100% | 2,482 |

- O gymharu â thair blynedd yn ôl, mae cynnydd wedi bod yng nghanran y gweithwyr sydd wedi eu cofrestru ar sail cwblhau'r fframwaith sefydlu gyda gofyniad hyfforddi i gwblhau'r cymhwyster gofynnol cyn adnewyddu cofrestriad (o fewn tair blynedd i gofrestru).

- Roedd 18.1 y cant yn meddu ar Ddiploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc), sef y cymhwyster gofynnol presennol.

Tabl 21: Nifer y gweithwyr a oedd eisoes yn gymwys pan wnaethant ymuno â'r Gofrestr, neu adael y Gofrestr

| Statws cymhwyster | 2014 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| Yn gymwys pan ymunwyd â'r Gofrestr | 13.5% | 60 | 13.3% | 92 |
| Ddim yn gymwys pan ymunwyd â'r Gofrestr | 86.5% | 384 | 86.7% | 599 |
| Yn gymwys pan adawyd y Gofrestr | 53.7% | 231 | 46.9% | 224 |
| Ddim yn gymwys pan adawyd y Gofrestr | 46.3% | 199 | 53.1% | 254 |

- O gymharu â thair blynedd yn ôl, mae canran y gweithwyr a oedd eisoes yn gymwys pan ymunon nhw â'r Gofrestr wedi aros yn sefydlog.

- Roedd canran y gweithwyr a oedd yn gymwys pan wnaethant adael y Gofrestr yn is (46.9 y cant o gymharu â 53.7 y cant yn 2014).

## 5.12 Oedran a rhywedd gweithwyr

Tabl 22: Oedran a rhywedd gweithwyr

| Grŵp oedran | Menywod | Dynion | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|---|---|
| O dan 25 | 148 | 56 | 204 | 8.2% |
| 25-30 | 387 | 246 | 633 | 25.5% |
| 31-35 | 218 | 164 | 382 | 15.4% |
| 36-40 | 165 | 136 | 301 | 12.1% |
| 41-45 | 129 | 93 | 222 | 8.9% |
| 46-50 | 157 | 123 | 280 | 11.3% |
| 51-55 | 142 | 97 | 239 | 9.6% |
| 56-60 | 82 | 61 | 143 | 5.8% |
| 61-65 | 40 | 21 | 61 | 2.5% |
| Dros 65 | 11 | 6 | 17 | 0.7% |
| Cyfanswm | 1,479 | 1,003 | 2,482 | 100.0% |

- Arhosodd oedran cyfartalog gweithwyr yn 38 oed.
- Cynyddodd nifer y gweithwyr dros 55 oed ychydig (o 8.5 y cant yn 2015 i 8.9 y cant yn 2016). Roedd y nifer sy'n 30 oed ac yn iau wedi cynyddu 2.8 y cant ers 2013 hefyd.
- Mae canran y gweithwyr a oedd yn ddynion (40.4 y cant) a menywod (59.6 y cant) wedi aros yn sefydlog yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae hon yn gymhareb o dair menyw i ddau ddyn.

### Tabl 23: Oedran cyfartalog gweithwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr ac yn gadael y Gofrestr

| | Oedran cyfartalog gweithwyr gofal preswyl i blant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| O'r rheiny a ymunodd yn y flwyddyn flaenorol | 34 | 32 | 34 | 34 | 34 |
| O'r rheiny a adawodd yn y flwyddyn flaenorol | 36 | 39 | 38 | 36 | 38 |

- Mae oedran cyfartalog y gweithwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr, neu'n gadael y Gofrestr, wedi amrywio ychydig yn y pum mlynedd ddiwethaf ond wedi aros yn sefydlog ar y cyfan.

### Tabl 24: Grwpiau oedran gweithwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr

| | Canran a nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp oedran | 2013 | | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
| O dan 25 | 19.0% | 86 | 22.7% | 101 | 15.8% | 82 | 21.4% | 114 | 19.8% | 137 |
| 25-30 | 29.8% | 135 | 34.5% | 153 | 32.4% | 168 | 27.4% | 146 | 31.1% | 215 |
| 31-55 | 49.0% | 222 | 40.3% | 179 | 48.5% | 252 | 47.7% | 254 | 45.4% | 314 |
| Dros 55 | 2.2% | 10 | 2.5% | 11 | 3.3% | 17 | 3.4% | 18 | 3.6% | 25 |

### Tabl 25: Grŵp oedran gweithwyr sy'n gadael y Gofrestr

| | Canran a nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp oedran | 2013 | | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
| O dan 25 | 10.7% | 33 | 6.5% | 28 | 7.8% | 40 | 9.3% | 41 | 10.0% | 48 |
| 25-30 | 29.2% | 90 | 24.9% | 107 | 28.0% | 143 | 33.3% | 146 | 28.7% | 137 |
| 31-55 | 52.9% | 163 | 58.4% | 251 | 55.5% | 283 | 52.4% | 230 | 50.4% | 241 |
| Dros 55 | 7.1% | 22 | 10.2% | 44 | 8.6% | 44 | 5.0% | 22 | 10.9% | 52 |

- Mae grwpiau oedran gweithwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr, ac yn gadael y Gofrestr, yn amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond maent wedi aros yn debyg, ar y cyfan.

## 5.13 Amrywiaeth ethnig, anabledd datganedig a gallu gweithwyr yn y Gymraeg

- Darparodd 87.3 y cant o weithwyr wybodaeth ynghylch p'un a oedd ganddynt anabledd. Fe wnaeth 1.1 y cant o'r rheiny a ymatebodd ddatgan anabledd.

**Tabl 26: Ethnigrwydd datganedig gweithwyr ar y Gofrestr**

| Ethnigrwydd | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Gwyn, Gwyn Prydeinig, Gwyn Cymreig, Gwyn Gwyddelig | 2,039 | 95.6% |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 19 | 0.9% |
| Unrhyw ethnigrwydd arall | 13 | 0.6% |
| Gwyn Cymysg a Du Caribïaidd | 12 | 0.6% |
| Du Affricanaidd | 10 | < 0.5% |
| Gwyn Cymysg a Du Affricanaidd | 8 | < 0.5% |
| Unrhyw gefndir Du arall | 5 | < 0.5% |
| Du neu Ddu Prydeinig Caribïaidd | 5 | < 0.5% |
| Du Caribïaidd | 4 | < 0.5% |
| Du neu Ddu Prydeinig Affricanaidd | 4 | < 0.5% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Pacistanaidd | 3 | < 0.5% |
| Grŵp ethnig cymysg | 3 | < 0.5% |
| Gwyn ac Asiaidd Cymysg | 2 | < 0.5% |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 1 | < 0.5% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Indiaidd | 1 | < 0.5% |
| Bangladeshaidd | 1 | < 0.5% |
| Tsieineaidd Prydeinig | 1 | < 0.5% |
| Indiaidd | 1 | < 0.5% |
| Cyfanswm | 2,132 | 100.0% |

- O'r 85.9 y cant o weithwyr a ddarparodd wybodaeth am eu hethnigrwydd, datganodd 96.5 y cant eu bod yn wyn (Prydeinig, Cymreig, Gwyddelig ac unrhyw gefndir gwyn arall). Nid yw hyn wedi newid yn sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf.

- Roedd 95.6 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru yn eu disgrifio eu hunain yn wyn[3].

*3. Ffynhonnell: "Arolwg y Llafurlu Lleol/Arolwg Poblogaeth Flynyddol 2016: Ethnigrwydd yn ôl awdurdod lleol Cymru" statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup*

Tabl 27: Gallu datganedig gweithwyr yn y Gymraeg

| Gallu yn y Gymraeg | 2014 | 2017 |
|---|---|---|
| Rhugl | 10.0% | 10.9% |
| Ychydig o Gymraeg | 21.0% | 26.2% |
| Dim Cymraeg | 69.0% | 62.9% |

- O'r 87.8 y cant o reolwyr a ddarparodd wybodaeth am eu gallu yn y Gymraeg, roedd y nifer sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi cynyddu ychydig o gymharu â thair blynedd yn ôl.
- Yn yr un cyfnod, roedd y nifer sy'n datgan eu bod yn medru ychydig o Gymraeg wedi cynyddu o 21.0 y cant i 26.2 y cant, ac mae nifer y rheiny nad oeddent yn siarad unrhyw Gymraeg yn is.
- Yng Nghyfrifiad 2011, dywedodd 19 y cant o boblogaeth Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

# Manylion cyswllt

Byddem yn falch clywed gennych os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn.

Os oedd yr adroddiad yn ddefnyddiol i chi, byddai gennym ddiddordeb yn clywed sut rydych wedi defnyddio'r data.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 303 3444 | E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru | Trydar: @GofCymdeithasol

© (2017) Gofal Cymdeithasol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.
ISBN: 978-1-911463-60-3

**Fformatau eraill**
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Dyluniwyd gan Escape to Design escapetodesign.co.uk